WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Jeremy Patterson
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
LD1 5LG

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 640A2013 |
| **Dyddiad** | 29 Tachwedd 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **3** |

Annwyl Jeremy

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 27 Medi 2013, rhoddais fy marn ar ba un a oedd Cyngor Sir Powys (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar ba un a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

**Yn fy marn i, ac ar sail gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur, er bod lle i gryfhau ei drefniadau ymhellach.**

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur oherwydd:

- cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13* (yr Adroddiad) erbyn 31 Hydref 2013, er na fydd crynodeb annhechnegol ar gael i ddinasyddion tan ganol mis Rhagfyr 2013;
- mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn flaenorol (2012-13) ac mae'n egluro'r modd y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Adroddiad yn cyflwyno tystiolaeth i ddangos y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud yn erbyn ei amcanion gwella;
- mae'r Adroddiad yn gwahodd dinasyddion i ddarparu adborth i'r Cyngor ynghylch yr Adroddiad ac mae'n disgrifio sut y gellir gwneud hynny;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau a fesurwyd gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol; ac

- mae rôl cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth er mwyn hybu agenda'r Cyngor ar gyfer gwella wedi'i hintegreiddio'n dda yn y trefniadau ar gyfer adrodd ynghylch beth y mae'r Cyngor wedi'i wneud a pham, a'r gwahaniaeth y mae hynny wedi'i wneud.

Rwyf wedi nodi nifer o feysydd lle gall y Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer adrodd ar welliant:

- Nid yw'r Adroddiad yn gwerthuso'n glir y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud tuag at gyflawni ei amcanion gwella, ac mae'n canolbwyntio ar y camau gweithredu a gwblhawyd a'r prosesau newydd a gyflwynwyd yn hytrach na'r canlyniadau y mae'r rhain yn eu cyflawni ar gyfer dinasyddion. Mae'r diffyg lefelau perfformiad a dargedir er mwyn dangos rhychwant y gwelliant y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni yn rhwystro gwaith herio mewnol a gwaith hunanwerthuso effeithiol.
- Er bod ystod ehangach o dystiolaeth wedi'i chynnwys yn Adroddiad eleni, nid yw'r Adroddiad hyd yma'n asesiad cynhwysfawr a chytbwys o berfformiad. Dibynnir yn ormodol o hyd ar ganlyniadau rhifol, ac mae rhychwant yr adborth a gafwyd gan ddefnyddwyr yn gyfyngedig neu'n anecdotaidd. Ni ddarperir gwybodaeth ansoddol, ehangach arall, er enghraifft canlyniad gwaith meincnodi, asesiadau craffu neu adolygiadau gan gymheiriaid.
- Nid yw'r Adroddiad yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth gymharol. Er y caiff meysydd cryfach a gwannach o ran perfformiad eu nodi, o gymharu'r Cyngor â chynghorau eraill Cymru, ni ddarperir unrhyw resymeg ar gyfer y cymariaethau a lunnir (neu nas llunnir), ac ni nodir beth y maent yn ei olygu a beth y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol o ganlyniad.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Nid wyf yn nodi unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn, gan fy mod wedi nodi'n flaenorol y gall ac y dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer adrodd ar welliant yn y meysydd a nodwyd uchod. Byddaf yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor wrth weithredu'r cynigion a bennwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu prosesau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad y Cyngor dros y misoedd nesaf ac yn adrodd arno, yn ogystal â chrynhoi fy ngwaith fy hun i gyd a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth